COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 5ED GORFFENNAF 2016 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs G. Baker (gweler Cofnod 88/16), Mrs L. Edwards, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

SWYDDOGION: Mrs R. Dudley (Clerc Cynorthwyol)
Mr T. Owens (Myfyriwr Ymgynghorol).

YMWELYDD: Mr John Hardy, Cymgor Bwrdeistrref Sirol Conwy

86/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr W. Bagnall, R. Foreman, Mrs V. Smith Y.H. a Mrs C J Earley (Clerc y Dref).

87/16 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

88/16 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Mrs Glenys Baker yn y pwynt yma.

89/16 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 44/16(d) - Maes Chwarae 3G Parc Eirias:

Croesawyd Mr John Hardy i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwahoddwyd ef i ddod i'r cyfarfod er mwyn iddo egluro i'r Pwyllgor y rheswm dros leoli'r maes chwarae newydd 3G ym Mharc Eirias.

Eglurodd Mr Hardy mai'r bwriad oedd gwneud Parc Eirias yn Ganolfan Rhagoriaeth i Chwaraeon (i gynnwys pêl-droed a hoci). Dyfarnwyd cyllid o £300,000 i Fwrdd Eirias am faes chwarae gwair ffug 3G maint llawn ac wedi i'r mater cael ei ystyried yn llawn, fe benderfynwyd ar y safle a ddewiswyd (gweler Atodiad A). Cwblhawyd y Cais Cynllunio heddiw. Fe ystyriwyd nad oedd Safle Glan y Don yn ymarferol am nifer o resymau, ond yn bennaf oherwydd byddai'n angenrheidiol i golli'r rhes o goed ger y Ganolfan Ddinesig. Mae'r safle hwn wedi cael ei glustnodi am welliant hefyd.

Yn dilyn arolwg, fe ddynodwyd tri phrif ardal yn y Parc oedd ar hyn o bryd yn ynysig a dim yn cael ei defnyddio, sef cyfanswm o 14,500 metr

sgwâr. Y bwriad yw adfywio'r ardaloedd hyn fel y gallent gael eu defnyddio gan y cyhoedd; i ailblannu lle mae angen, cael gwared ar ordyfiant a chwyn ac i annog adar, ystlumod a bywyd gwyllt i'r ardal.

Yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau gan y Cadeirydd ac mae'r canlynol yn grynodeb byr o'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed.

Mynegwyd pryder byddai Bae Colwyn yn colli'r 'em yn ei choron'. Fodd bynnag, dywedodd aelod arall bod angen i'r dref symud ymlaen ac mae angen y refeniw a ddaw o fuddsoddiad.

Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd Mr Hardy fe fydd y safle yn cael ei aflonyddu am 3 mis. Dywedwyd wrtho fod llawer o drigolion lleol yn defnyddio'r ardal hwn i gerdded eu cŵn a gofynnwyd iddo a fyddai'r safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwaraeon elitaidd yn unig. Roedd rhai aelodau heb gael eu darbwyllo y byddai'r cyfleustra yn dod yn Ganolfan Rhagoriaeth. Dywedodd Mr Hardy eu bod yn cael trafferth i gadw i fynnu gyda'r gofyn gan blant o'r ysgolion lleol (Uwchradd a Chynradd) ar gyfer y maes chwarae dan do, sydd ar gael i'w ddefnyddio gan yr holl gymuned. Am fod y cyllid yn benodol ar gyfer safle newydd, bydd y maes chwarae 3G newydd yn cymryd y pwysedd oddi wrth y maes chwarae gwair presennol. Caiff y maes chwarae 3G ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant a bydd maes chwarae'r stadiwm yn cael ei uwchraddio. Dywedodd Mr Hardy byddai'r plant a'r ysgolion lleol yn cael budd o gael y cyfleusterau newydd.

Cafwyd gwrthwynebiad cryf yn erbyn y golled ddifrifol o ran mor helaeth o dir parc agored i'r cyhoedd (amcangyfrif ei fod yn 30% o'r ardal agored bresennol) a gofynnwyd i Mr Hardy a fyddai'r datblygiad o'r meysydd agored newydd yn mynd law yn llaw a'r datblygiad o'r safle a pha sicrwydd a roddwyd i sicrhau bydd y mannau agored yn eu lle fel yr addawyd. Dywedodd Mr Hardy bydd datblygu'r meysydd agored yn un o'r amodau o'r caniatâd cynllunio ond dywedodd nad oedd amserlen yn ei le a hefyd nid oedd y cyllid ar gyfer yr ailddatblygiad o'r meysydd hyn wedi cael ei ddynodi hyd yn hyn ac felly nid oedd yn bosibl i warantu hyn.

Cadarnhaodd Mr Hardy bydd y safle yn cael ei amgylchynu a byddai llifoleuadau ac na fyddai parcio ceir yn broblem. Bydd cynllun rheoli trafnidiaeth yn ei le ar gyfer digwyddiadau mawr. Cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer ystafelloedd newid am fod y rhain ar gael yn y prif adeilad ac nad oes unrhyw fwriad o gwbl i adeiladu unrhyw beth arall ar y safle.

Gofynnwyd iddo ai'r rheswm dros beidio defnyddio safle Glan y Don oedd oherwydd y bwriad i werthu Glan y Don. Ateb Mr Hardy oedd na, a'i fod yn ymwneud a'r coed.

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cael balans rhwng hawl trigolion lleol i allu mwynhau eu hamgylchedd lleol a chaniatáu / annog buddsoddiad yn yr ardal.

Dywedodd r Hardy y byddai'n barod i ddychwelyd ar unrhyw adeg i drafod unrhyw bryderon eraill bydd gan y Pwyllgor a hefyd i glywed am unrhyw syniadau bydd gan y Pwyllgor am weddill y Parc. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Hardy am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

(b) Cofnod 70/16(d) - Y Dyn Digartref yn Llandrillo yn Rhos:

Derbyniwyd a nodwyd y diweddariad oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC).

(c) Cofnod 352/15 - Talu am Barcio ar y Promenâd ym Mae Colwyn:

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol llythyr oddi wrth GBS Conwy a neges e-bost gan y Cynghorydd Mrs Baker, parthed y taliadau arfaethedig ar y Promenâd. Gofynnodd y Cynghorydd Mrs Baker a fyddai trigolion yn cael tocyn parcio trigolion am ddim. Ymateb CBS Conwy oedd nad oedd hyn yn debyg o fod yn berthnasol oherwydd ychydig o anheddau sy'n wynebu'r Promenâd a bod gan y mwyafrif o rain cyfleusterau i barcio oddi ar y stryd. Bydd tocynnau parcio tymhorol ar gael i drigolion am bris £95 + TAW, er na wnaed penderfyniad terfynol ar hyn.

Penderfynwyd bod y Clerc i ysgrifennu i ofyn a fyddai'r taliadau yn dymhorol a pham bod y taliadau arfaethedig i fod rhwng 8am a 6pm yn lle'r amseroedd gwreiddiol o rhwng 10am a 4pm.

(ch) Cofnod 70/16(b) - Llochesi Bysus:

(i) Derbyniwyd ymateb CBS Conwy parthed y costau glanhau rheolaidd. Fe nodwyd bod cyfanswm o 20 lloches wedi cael eu glanhau am gost o £312.

(ii) Cyflwynwyd amcan bris am Loches Bysus ger Parc Eirias yn ogystal â neges e-bost, yn egluro mai oherwydd maint cyfyngedig y safle, mai'r lloches 2 bae Chester, byddai'r mwyaf addas.

Penderfynwyd derbyn yr amcan bris am Gysgodfan 2 bae Chester ar gyfer y safle ger Parc Eirias.

(iii) Cyflwynwyd neges e-bost gan GBS Conwy ynglŷn â mynychu Arolwg o Lochesi Bysus ar 27ain neu'r 28ain Gorffennaf 2016. Enwebwyd y Cynghorydd Chip Wood i ymuno a'r Clerc a rhoddwyd awdurdod dirprwyol i'r Clerc a'r Cynghorydd Wood i wneud unrhyw benderfyniadau ar ddiwrnod yr arolwg parthed y gwaith cynnal a chadw.

(d) Cofnod 351/15 - Cynllun y Llwybr Beiciau / Troed:

Derbyniwyd a nodwyd y diweddariad.

(dd) Cofnod 380/14 - Rheiliau Beiciau Spar:

Fe nodwyd gan yr aelodau nad oedd angen caniatâd cynllunio, am y rheiliau beiciau a gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at Reolydd Siop Spar i ddweud y gellir gosod y rheiliau beiciau oddi allan i'r siop rŵan.

(e) Cofnod 372/15 - Caeau'r Canmlwyddiant:

Derbyniwyd ac fe nodwyd y gydnabyddiaeth i'n cais i Erddi'r Frenhines cael eu hystyried.

90/16 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol yr eitem ganlynol gan GBSC i'w ystyried:

Adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd B. Bagnall am Grŵp Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

91/16 <u>Cludiant:</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol:
a. Bwletin gan Asiantaeth y Cefnffyrdd
b. Prosbectws Gweithlu'r Rheilffordd
c. Ymgynghoriad ar Gludiant Cymunedol Conwy

Penderfynwyd derbyn a nodi'r dogfennau.

92/16 <u>Grŵp Cyfeirio Rhandeiliaid:</u>

Cyflwynwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol.

Penderfynwyd derbyn y crynodeb a'i nodi.

93/16 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:
a. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
b Copïau o lyfrynnau a gynhyrchwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru

94/16 <u>Cynllunio</u>:

a. Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried.

   Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod 06/06/16 hyd at 19/6/16.***

c. Fe nodwyd bod ceisiadau O/42799 (Meddygfa West End) ac O/42543 (20 Kings Road) wedi cael eu tynnu'n ôl.

ch Rhoddodd y Cynghorydd Glenys Baker adroddiad byr ar y Cwrs Cymorth Cynllunio a fynychwyd ganddi ar 26ain Mehefin. Roedd o'r farn ei fod wedi bod yn ddefnyddiol ond i aelodau dibrofiad o'r Pwyllgor Cynllunio yn unig.

95/16 <u>Trwyddedau:</u>

Fe nodwyd y ceisiadau diweddaraf am drwyddedau a gofnodwyd gan GBS Conwy

96/16 <u>Hysbysiad am Apêl Cynllunio CBS Conwy:</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi o'r rhybudd gwrthod ar gyfer 75 Victoria Park, Bae Colwyn.

Penderfynwyd bod y Cyngor Tref i ysgrifennu at yr Arolygaeth Cynllunio i gefnogi penderfyniad yr Awdurdodau Cynllunio i wrthod y cais.

97/16 <u>Gorchymyn Parcio Bwriedig:</u>

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol copi o Orchymyn Parcio ar gyfer Maes Parcio Rhodfa'r Tywysog. Mae'r Cyngor yn bwriadu troi'r maes parcio (sydd at hyn o bryd yn faes parcio tymor byr) i fod yn faes parcio tymor hir er mwyn cyfarfod a'r anghenion cynyddol am barcio arhosiad hir.

Penderfynwyd cefnogi'r bwriad.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.50 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 5TH JULY 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr N Bastow (Chair)
Cllrs: Mrs G Baker (see min. 88/16) Mrs L Edwards, Mrs L Griffiths, Mrs M Jones, J Pearson, S Williams, C Wood

OFFICERS: Mrs R Dudley, Town Clerk
Mr T Owens, Student Advisor

VISITORS: Mr John Hardy, Conwy CBC

66/16 Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllrs: W Bagnall, R Foreman, Mrs V Smith & T Earley (Town Clerk)

67/16 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

68/16 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 14th June 2016.

Cllr Mrs Glenys Baker arrived at this juncture.

69/16 Matters Arising from Previous Minutes:

(a) Min. 44/16(d) – Parc Eirias 3G Pitch:

The Chair welcomed Mr John Hardy to the meeting. He had been requested to attend by the Committee to explain the reason for the proposed location of the new 3G sports pitch in Parc Eirias.

Mr Hardy explained that the plan for Eirias Park was to make it a Centre of Excellence for Sport (to include football and hockey). The Eirias Board had been awarded £300,000 funding for a full sized 3G artificial grass pitch and, having given the matter full consideration, had decided on the chosen site (see Appendix A). The Planning Application had been finalised today. The Glan y Don Site had been deemed impractical for a number of reasons, but principally because a bank of trees by the Civic Centre would have to removed. The site had also been earmarked for improvement.

A survey had been undertaken and three main areas in the park, which were currently isolated and underused, had been identified, which comprise of 14,500 sq metres. The proposal is to bring these areas back to life and for the public to use; to replant where necessary, get rid of the overgrowth and weeds and to encourage birds, bats and wildlife to the area.

The Chairman then invited the members to ask questions and the following is a brief summary of the comments and questions made:

Concern was expressed that Colwyn Bay would be losing its 'jewel in the crown'. However, another member commented that the Town needs to move forward and needs it needs revenue and investment.

In response to a question, Mr Hardy said that there would be 3 months of disruption at the site. He was informed that many local residents use that area for dog walking and questioned whether the area would now be used for elite sports only. Some members were not convinced that the facility would become a Centre of Excellence. Mr Hardy said that they currently struggled to keep up with the demand from local school children (Secondary and Junior) for the indoor pitch, which is available for the use by the community as a whole. As the funding was specifically for a new site, the new 3G pitch will take pressure off the existing grass pitch, training will take place on the 3G pitch and the stadium pitch will be upgraded. Mr Hardy said that local children and schools would benefit from the new facilities.

Strong objections were made about the severe loss of a large open access area of the parkland (estimated to be 30% of the current usable open space) and Mr Hardy was asked if the development of the new open green spaces would run in tandem with the development of the site and what safeguards would be put in place to ensure that the open spaces will be delivered, as promised. Mr Hardy said that the development of the open spaces would be a condition of planning consent, but did say there was no time frame in place and also funding for the redevelopment of these areas had not yet been identified and therefore was not guaranteed.

Mr Hardy confirmed that the site would be enclosed and floodlit and that car parking would not be a problem. For large events, traffic management would be in place. He also confirmed that there were no plans for changing rooms; those facilities are available in the main building and there is absolutely no intention of building anything else at the site.

He was asked if the reason for not using the Glan Y Don Site was due to the resale of the Civic Centre. Mr Hardy responded no, it was to do with the trees.

Members felt that there had to be a balance struck between residents enjoying their local environment and allowing/encouraging investment in the area.

Mr Hardy said he would be willing to return at any time to address any further concerns the Committee may have and also to hear any ideas the Committee may have about the rest of the park. The Chairman thanked Mr Hardy and he retired from the meeting.

(b) Min 70/16 (d) – Homeless man in Rhos on Sea:

The update from Conwy CBC was received and noted.

(c) Min 352/15 – Charges on Colwyn Bay Promenade:

The Assistant Clerk submitted a letter from Conwy CBC and an email from Cllr Mrs Baker regarding the proposed charges on the promenade. Cllr Mrs Baker had asked if residents would receive a free residential parking permit. Conwy CBC had replied to say that they didn't think it would be applicable as there are only a few properties with frontal access and the majority of these have off street parking. Seasonal parking permits will be available for residents at the cost of £95 + VAT, although no firm decision has been made yet.

Resolved that the Clerk would write to ask if the charges will be seasonal and why the proposed charges will now apply between 8am – 6pm where as originally the times were 10am – 4pm

(d) Min 70/16 (b) – Bus Shelters:

(i) A response from Conwy CBC regarding cleaning costs was received. It was noted that a total of 20 shelters had been cleaned at a cost of £312.
(ii) A Bus Shelter quote was submitted for Eirias Park and also an email explaining that due to the restrictive size of the site, A 2 bay Chester shelter would be the most appropriate.

Resolved to accept the quotation for a 2 bay Chester Shelter at the Eirias Park site.

(iii) An email from Conwy CBC was submitted regarding attending a Bus Shelter Survey on 27th or 28th July 2016. Cllr Chip Wood was nominated to accompany the Clerk and the Committee delegated authority to the Clerk and Cllr Wood to make decisions on the day of the survey regarding maintenance and taking advice.

(e) Mon 351/15 – Design for Cycle/Footway:

The update was received and noted.

(f) Min 380/14 – Spar Cycle Racks:

Members noted that no planning permission was required for the cycle racks and requested that the Clerk write to the Spar Manager to say that the cycle racks could now be placed outside the store.

(g) Min 372/15 – Centenary Fields:

The acknowledgement to our request that Queens Gardens be considered was received and noted.

70/16 <u>Conwy CBC</u>:

The Assistant Clerk submitted, for consideration, the following items from CCBC:

Written report from Cllr B Bagnall on the Bay Life Strategic Management Group

Resolved to receive and note the report.

71/16 <u>Transport:</u>

The Assistant Clerk submitted:
(a) Bulletin from the Trunk Road Agency
(b) Rail Task Force Prospectus
(c) Community Transport Consultation for Conwy

Resolved to receive and note the documents.

72/16 <u>Stakeholder Reference Group</u>:

A summary of the financial situation was submitted.

Resolved to receive and note the summary.

73/16 <u>Other Correspondence:</u>

It was noted that the following items of correspondence are available on request from the Clerk:
a. Ombudsman's Annual Report
b. Copies of booklets produced by Planning Aid Wales.

74/16 <u>Planning:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule A attached.

b. ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 06/06/16 to 19/6/16.***

c. It was noted that applications 0/42799 (West End Medical Centre) and 0/42543 (20, King's Road) had been withdrawn.

d. Cllr Glenys Baker gave a brief report on the Planning Aid Course she had attended on 26th June. She felt it had been useful but only for inexperienced members of the planning committee.

75/16 **Licensing:**

The recent licensing applications logged by CCBC were noted.

76/16 **Conwy CBC Planning Appeal Notification**:

The Assistant Clerk submitted a copy of the refusal notice for 75, Victoria Park, Colwyn Bay.

Resolved that the Town Council would write to the Planning Inspectorate to back up the Planning Authorities refusal.

77/16 **Proposed Parking Order:**

The Assistant Clerk submitted a copy of a parking order for Princes Car Park. The Council proposes to make the car park (currently short stay) into a long stay car park to meet the increased demand for long stay parking.

Resolved to support the proposal.

The meeting closed at 7.50pm ……. Chairman